

DEFNYDD O FFONAU SYMUDOL WRTH YRRU

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD
2. AMCAN Y CANLLAWIAU
3. CYFARWYDDYD
4. GORFODAETH
5. ADOLYGIAD



DEFNYDD O FFONAU SYMUDOL WRTH YRRU

CYFLWYNIAD

Mae wedi bod yn anghyfreithlon ers 1 Rhagfyr 2003 i ddefnyddio ffonau symudol a ddelir gyda llaw (neu ddyfeisiadau eraill fel BlackBerry's, SmartPhones, PDA's ayb) wrth yrru.

O dan y Ddeddf Diogelwch Ffordd 2006, mae'r ddirwy ar gyfer defnydd anghyfreithlon o'r fath wedi codi i £60 a 3 pwynt cosb ar y drwydded yrru (ers 27 Chwefror 2007). Mae hyn yn adlewyrchu'r goblygiadau i ddiogelwch ffordd o ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru.

Mae unrhyw berson sy'n gofalu am gerbyd gyda'r injan yn rhedeg, hyd yn oed os yw'r cerbyd yn llonydd, yn cael ei ddiffinio yn ôl y gyfraith fel petae yn "gyrru". Yn yr achos hwn, os ydych yn defnyddio ffôn symudol, fe allech fod yn torri'r gyfraith.

AMCAN Y CANLLAWIAU:

I sicrhau fod holl weithlu CYNNAL yn ymwybodol **NA DDYLENT** ddefnyddio ffonau symudol wrth yrru cerbydau yn ystod oriau gwaith.

Mae hyn yn berthnasol i'r holl weithwyr sy'n gyrru cerbydau sy'n perthyn i CYNNAL, neu gerbydau y mae'r staff yn berchen arnynt, ar fusnes y cwmni yn ystod amser gwaith.

Yn y cyd-destun hwn, diffinnir **amser gwaith** fel yr holl amser a dreulir yn y gwaith.

Yn dechnegol, nid yw'r Canllawiau yn cynnwys y daith i ac yn ôl o'r gwaith, ond mae'n arfer dda i lynu at y Canllawiau ar bob achlysur.

CYFARWYDDYD

Ni ddylai staff **o dan unrhyw amgylchiadau** ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd yn ystod oriau gwaith. Mae hyn hefyd yn cynnwys eich ffôn personol, yn eich cerbyd eich hun, yn ystod oriau gwaith. Mae'n drosedd i wrando/siarad ar y ffôn, anfon negeseuon testun, ebost, edrych ar galendrau ayb, os yw'r ddyfais yn llaw'r gyrrwr tra'n gyrru.

Wrth yrru'r cerbyd, mae'n arfer dda i ddiffodd eich ffôn symudol a defnyddio'r gwasanaeth peiriant ateb. Os ydych yn gwneud hyn, fe ddylech wirio yn rheolaidd os oes negeseuon wedi'i gadael ar eich ffôn, ac i ymateb i'r galwadau hynny mor fuan ag sydd modd.

Pe baech yn gadael y ffôn ymlaen tra'n gyrru, os yw'n canu, ni ddylech ei hateb cyn canfod lle diogel i stopio'r cerbyd.

Os oes angen gwneud galwad ffôn tra'n gyrru, bydd rhaid darganfod man diogel ac addas i stopio'r cerbyd a diffodd yr injan cyn gwneud yr alwad.

Fel egwyddor gyffredinol, mae CYNNAL o'r farn na ddylai aelodau o staff wneud neu ateb galwad ffôn gan ddefnyddio unrhyw fath o offer "dwylo rhydd" tra'n gyrru.

Mae hefyd yn drosedd i achosi neu ganiatau defnydd anghyfreithlon o ffôn symudol wrth yrru. Felly ni ddylech yn fwriadol alw person os ydych yn gwybod eu bod yn gyrru.

GORFODAETH

Bydd unrhyw honiadau o **ddefnydd anghyfreithlon** o ffôn symudol pan ar fusnes CYNNAL yn cael ei archwilio, a phan yn briodol, yn cynnwys y defnydd o weithdrefnau disgyblaeth y cwmni.

ADOLYGIAD

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd a / neu pe bydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth, a'i ddiweddarau lle bo'n briodol.